## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Unwaith eto, taflodd pandemig Covid 19 gysgod trwm dros ein hysgolion yn y flwyddyn academaidd 2020-21. Bu'n rhaid i'r ysgolion gau eu drysau am ran o'r flwyddyn a chafwyd cyfnodau eraill lle roedd nifer helaeth o'r disgyblion yn gorfod dysgu o bell. Trwy gydol y flwyddyn prif flaenoriaeth yr awdurdod a'r ysgolion oedd lles y disgyblion a'n staff a neilltuwyd amser yn ein cyfarfod cyntaf ers dechrau'r pandemig, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020, i drafod y mater hollbwysig hwn. Cawsom gyfle i glywed gan yr athrawon am yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu a nodi ein gwerthfawrogiad o'u hymdrechion mewn cyfnod anodd iawn a'r ffaith bod Addysg Grefyddol i weld yn cael sylw teilwng yn y cyfnod clo.

Nid oedd modd i'r CYSAG gyflawni ei ddyletwyddau o ran monitro safonau Addysg Grefyddol oherwydd bod y drefn arferol o hunan arfarniadau ysgolion, arolygon gan Estyn ac arholiadau allanol wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn. Yn yr un modd, nid oedd yn bosibl i aelodau o'r CYSAG ymweld â'r ysgolion i weld eu gweithredoedd o addoli ar y cyd.

Serch hynny, rwy'n ddiolchgar i aelodau CYSAG Gwynedd am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a ddisgrifir yn yr adroddiad isod. Mae hyn yn cynnwys ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar "Canllawiau Ynghylch Cynllunio a Gweithredu Elfen Orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg", gan fynegi bodlonrwydd gyda chynnwys yr ymgynghoriad a nodi pwysigrwydd sgiliau arbenigol pwnc Addysg Grefyddol wrth addysgu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n hathrawon am eu gofal a'u hymroddiad yn cyflwyno Addysg Grefyddol a chynnal gweithred o addoli ar y cyd, sy'n rhan werthfawr o fywyd ysgol gan helpu i hyrwyddo lles ein disgyblion, yn ysbrydol, cymdeithasol ac emosiynol.

**Y Cynghorydd Paul Rowlinson**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2020/2021**